# Cais Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ar wastraff amaethyddol

### Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r diwydiant gwastraff, gan gynnwys y gwastraff hwnnw a ddefnyddir neu sy'n deillio o'r sector Amaethyddol. Rydym yn brif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ac yn gynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach. Rydym hefyd yn cyfathrebu ynghylch materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac mae'n gweithio i ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd nesaf a fydd yn nodi mesurau i gynnal a gwella'r amgylchedd dŵr. Nodir bod llygredd o amaethyddiaeth, gan gynnwys dŵr ffo o gaeau a buarthau, yn un o'r prif resymau pam mae cyrff dŵr yn methu â chyflawni amcanion.

### Sylwadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw gwastraff amaethyddol, ar lefel strategol yng Nghymru, yn wastraff sy'n achosi problemau oherwydd y meintiau cymharol fach ohono a gynhyrchir. Fodd bynnag, mae'n werth nodi y gall elfennau gwastraff, er enghraifft asbestos o adeiladau fferm, gwastraff o waith dymchwel, cemegion fferm peryglus, gwastraff gofal iechyd anifeiliaid neu gemegion trochdrwytho defaid, achosi problemau lleol os na chânt eu rheoli'n gywir.

Felly, rydym yn cefnogi eich barn nad oes angen Cynllun Sector penodol ar gyfer Amaethyddiaeth a bod Papur Sefyllfa i ymdrin â'r materion yn fwy priodol.

Rhestrir ymatebion penodol i Gwestiynau'r ymgynghoriad isod ac mae gennym sylwadau ychwanegol ar agweddau eraill a nodir yn y ddogfen fel a ganlyn:

- Rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynghylch Tipio Anghyfreithlon ar dir amaethyddol ac, er y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion adnabyddadwy sy'n gadael gwastraff ar dir cyhoeddus, y tirfeddiannwr preifat sy'n bennaf cyfrifol am reoli/gwaredu'r gwastraff hwn pan gaiff ei waredu ar ei dir. Mae'r undebau ffermio yn aelodau o Taclo Tipio Cymru a nodir eu pryderon o fewn y grwpiau hyn.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn llwyr gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru a nodir yn y ddogfen ymgynghori 'Cymru Ddi-dipio'. Rydym yn cefnogi'r cynigion sy'n ymwneud â Thipio Anghyfreithlon ar dir preifat a Thir Amaethyddol.
- Rydym yn cefnogi'r sefyllfa bresennol lle ceir eithriadau sy'n dileu'r gofyniad i ddal trwydded amgylcheddol ac yn caniatáu i wastraff organig a gynhyrchir ar y fferm i'w drin drwy broses Dreulio Anerobig gael ei ddefnyddio. Dylid hyrwyddo hyn. Er nad yw'r mathau o wastraff, tail a deunydd planhigion yn cynhyrchu lefelau uchel o fio-nwy yn ystod y broses drin, mae'n galluogi ffermwyr i ddefnyddio ffynhonnell ynni adnewyddadwy a all ddiwallu neu wrthbwyso anghenion ynni'r fferm. Gellir defnyddio gweddillion a gynhyrchir gan y broses Dreulio Anerobig yn lle gwrtaith a dylid annog eu defnyddio lle y gellir sicrhau y byddant yn cael effaith fuddiol ar dir heb achosi llygredd.

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

**1. A oes gennych dystiolaeth o'r union fathau a meintiau o wastraff amaethyddol a gynhyrchir, a'r mathau a'r meintiau o wastraff a gaiff ei adfer ar ddaliadau amaethyddol bob blwyddyn yng Nghymru?**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio ar gyfer taenu gwastraff ar dir amaethyddol ac, felly, mae gennym fanylion am y mathau a'r meintiau o wastraff nad yw'n wastraff amaethyddol a gaiff ei adfer ar dir amaethyddol o dan drwyddedau a chaniatadau peiriannau symudol. Mae'r wybodaeth hon eisoes wedi'i rhoi i Lywodraeth Cymru. At hynny, mae gennym wybodaeth am faint o wastraff peryglus sy'n cael ei anfon o safleoedd Amaethyddol.

Mae gwell data a ffynonellau data bob amser i'w croesawu.  At hynny, efallai y bydd rhoi rhagor o gymorth i ffermwyr i'w helpu i reoli gwastraff yn gynaliadwy, gan dynnu sylw at y manteision ehangach y gallent eu sicrhau, yn cael mwy o effaith o ran datblygu arfer rheoli gwastraff gwell. Yn benodol, mae defnyddio Codau Arfer Amaethyddol Da (CoGAP) yn ffordd ddefnyddiol o roi rhagor o wybodaeth i ffermwyr am y dulliau hynny o reoli ffermydd sy'n effeithiol ac yn amgylcheddol fuddiol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi helpu i adolygu'r dogfennau hyn a bydd yn darparu canllawiau ar reoli gwastraff sydd i'w ddefnyddio ar ffermydd yn effeithiol ac ar drin ac ailgylchu gwastraff a gynhyrchir ar ffermydd. Rydym o blaid defnyddio'r canllawiau hyn a'u hymgorffori yn y datganiad sefyllfa drafft.

**2. A oes gennych dystiolaeth o'r dulliau/cyfleusterau (gan gynnwys mathau a meintiau o wastraff) a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y sector amaethyddol ac a oes cyfleusterau ac chapasiti digonol ar gael?**

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth lle mae trwydded wedi'i rhoi ar gyfer y gweithgaredd, er ei bod yn anodd gwahanu ffrydiau penodol a gynhyrchir gan y diwydiant megis gwastraff pecynnu, gwastraff cerbydau (e.e. olew, batris, teiars).  Hefyd, mae gennym fanylion am nifer yr eithriadau sy'n cael eu defnyddio gan safleoedd amaethyddol ond nid yw hyn yn nodi'r union fathau a meintiau o wastraff a ddefnyddir. Fodd bynnag, mae'n cynnwys y niferoedd o safleoedd amaethyddol sy'n cynnal gweithgareddau treulio anerobig neu gompostio o dan delerau'r eithriadau perthnasol.

## Rheoleiddio

**3. A oes gennych dystiolaeth o b'un a yw gweithgarwch rheoli gwastraff amaethyddol wedi gwella ers i'r Rheoliadau gael eu cyflwyno yn 2006? A oes digon o wybodaeth o fewn y diwydiant amaethyddol am reoli gwastraff yn gynaliadwy a sut i gydymffurfio â'r Rheoliadau, yn eich barn chi?**

Pan ddechreuwyd rheoleiddio gweithgareddau ffermio yn 2006, bu un o'n sefydliadau etifeddol, sef Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn gweithio gyda'r undebau ffermio yng Nghymru i arwain ymgyrch gyhoeddusrwydd uchel ei phroffil i hysbysu'r diwydiant ffermio. Ers hynny, bu lleihad amlwg yn y defnydd a wneir o ddulliau gwaredu sy'n niweidio'r amgylchedd a oedd y tu hwnt i reolaeth y rheoleiddwyr yn flaenorol megis llosgi a chladdu gwastraff ar dir ffermio.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull gweithredu hwn wrth i newidiadau rheoliadol dilynol gael eu cyflwyno. Er enghraifft, cofrestrwyd mwy nag 20,000 o eithriadau gan y diwydiant ffermio ym mis Hydref 2013.  At hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio gweithgarwch gollwng gwastraff ar dir amaethyddol sy'n cael effaith fuddiol, megis taenu deunydd sy'n deillio o wastraff ar dir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar wella gwybodaeth a gweithgarwch rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac, felly, rydym yn annog


www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

datblygu ffocws ar reoli gwastraff mewn cynlluniau Trawsgydymffurfio fel dewis amgen i reoleiddio llymach.

**4. A yw'r rheoliadau gwastraff presennol yn addas i sicrhau bod gweithgarwch rheoli gwastraff o'r sector amaethyddol yn cael ei reoli'n ddigonol er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol, yn eich barn chi? Sut y gellid eu gwella a beth yw'r prif faterion sy'n ymwneud â gwastraff amaethyddol (cydymffurfio, gorfodi, monitro)?**

Yn ein barn ni, mae'r rheoliadau presennol yn ddigonol i reoli gwastraff amaethyddol. Fodd bynnag, gan fod gweithgarwch ffermio yng Nghymru yn cael ei gyflawni'n bennaf gan fusnesau bach, dylid canolbwyntio ymdrechion ar roi cyngor ar arweiniad yn uniongyrchol i'r unigolion hyn.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yma, yn arbennig am ei bod yn dangos mai meintiau cymharol fach ohono sy'n cael eu cynhyrchu, yn awgrymu nad yw gwastraff amaethyddol, ar lefel strategol yng Nghymru, yn wastraff sy'n achosi problemau.

**5. A oes gennych unrhyw dystiolaeth o b'un a yw deddfwriaeth ynglŷn â gwastraff yn effeithiol o ran rheoli'r defnydd o wastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill ar dir ffermio ai peidio?**

Ar hyn o bryd, mae'r trwyddedau safonol ar gyfer Peiriannau Symudol a'r gofynion cysylltiedig o ran caniatadau yn ffyrdd effeithiol o reoli'r defnydd buddiol o wastraff allanol megis gwrteithiau/cyflyrwyr pridd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau sydd ar waith yn sefydlu strwythur rheoliadol effeithiol i fonitro'r modd y cânt eu defnyddio mewn gwirionedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn datblygu cynigion a fydd yn cynnwys gofynion llymach i ymdrin â'r agwedd hon ac rydym yn monitro'r datblygiadau hyn gyda'r bwriad o ystyried newidiadau tebyg i amodau ein trwyddedau.

Cydymffurfiwyd â gofynion deddfwriaethol eithriadau megis ‘eithriad U1’ ar gyfer defnyddio gwastraff at ddibenion adeiladu, ar y cyfan.  Fodd bynnag, bu achosion lle mae ffermwyr wedi bod wrthi'n gollwng meintiau o wastraff sy'n fwy na chyfyngiadau'r eithriadau a lle mae eithriadau yn cael eu defnyddio fel ffordd anghyfreithlon o waredu gwastraff. Rydym yn trin y rhain fel gweithrediadau gwastraff anghyfreithlon ac ymchwilir i'r busnes a'r safle dan sylw a chymerir camau gorfodi yn eu herbyn o dan delerau ein Polisi Gorfodi.

**Gwybodaeth**

**6. A oes gennych dystiolaeth o'r materion ymarferol a'r prif rwystrau i'r diwydiant amaethyddol o ran rheoli, lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff amaethyddol?**

Er nad oes gennym unrhyw dystiolaeth uniongyrchol, rydym yn ymwybodol, yng Nghymru, mai gweithgaredd busnes bach yn bennaf sydd wedi'i gyfyngu fel arfer i aelodau o'r teulu yw'r sector amaethyddol. Oherwydd y pwysau y maent yn eu hwynebu wrth reoli'r gweithgarwch amaethyddol ar gyfer y fferm, mae'n bosibl na fydd ganddynt yr amser na'r adnoddau i ganolbwyntio ar reoli gwastraff e.e. gwahanu a didoli deunyddiau i'w hailgylchu. Argymhellwn y dylid rhoi cymorth ychwanegol i'r busnesau hyn, er mwyn eu helpu i ddeall yn well ei bod yn hanfodol rheoli gwastraff yn gywir ac y gall helpu i leihau eu costau rheoli gwastraff. Byddai hefyd yn werth ystyried a yw cynnig cymhellion ariannol er mwyn sicrhau bod rheoli gwastraff mor hawdd â phosibl yn opsiwn.

Gellid rhoi ystyriaeth i'r mater hwn drwy bartneriaethau â sefydliadau ffermio megis yr Undebau Ffermio, Cyswllt Ffermio ac eraill. Byddai menter Rhanddeiliaid Hwyluso'r


www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Drefn hefyd mewn sefyllfa dda i wneud hyn a defnyddio dulliau cyfathrebu uniongyrchol mewn amrywiaeth o leoliadau megis yn ystod diwrnodau arddangos grwpiau fferm.

### Cyffredinol

### 7. Beth yw'r prif faterion sy'n ymwneud â rheoli gwastraff amaethyddol yng Nghymru?

Byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod ffermwyr yn cael eu hysbysu y gallai gwastraff a gynigir iddynt i'w ddefnyddio ar eu tir fod wedi'i halogi â sylweddau a fyddai'n cael effaith andwyol ar y tir sy'n eiddo iddynt neu eu stoc. Mae angen iddynt gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r deunyddiau cyn eu derbyn. Dyma faes lle y gallai canllawiau'r Codau Arfer Amaethyddol Da a chynnwys yr Undebau Ffermio yn y gwaith o roi cyngor diduedd fod o fudd mawr i ffermwyr o ran diogelu eu gweithrediadau rhag ymdrechion diegwyddor i ddefnyddio ffermio fel ffordd anghyfreithlon o waredu gwastraff.

Ar gyfer gwastraff a gynhyrchir ar y fferm y mae'n ofynnol ei reoli oddi ar y safle, mae angen i ffermwyr gael canllawiau clir a phenodol ar eu Dyletswydd Gofal o ran Rheoli'r gwastraff hwn gan gynnwys unrhyw wastraff peryglus a gynhyrchir ganddynt. Byddai cyflwyno fersiwn diwygiedig o'r Cod Ymarfer ar gyfer y Ddyletswydd Gofal o ran Rheoli Gwastraff yn gyfle i hysbysebu arfer da i'r diwydiant hwn.

### 8. A oes gennych dystiolaeth o'r ffordd y gall y sector amaethyddol helpu sectorau eraill i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff mewn ffordd gynaliadwy?

Y defnydd buddiol o wastraff bioddiraddadwy fel gwrteithiau a chyflyrwyr pridd a nodwyd uchod yw'r prif enghreifftiau.

### Sylwadau ar y Datganiad Sefyllfa drafft.

Mae'r cod yn canolbwyntio, yn gywir ddigon, ar wastraff amaethyddol. Fodd bynnag, mae llawer o ffermydd hefyd wedi arallgyfeirio i ymgymryd â gweithgareddau eraill megis gweithgareddau awyr agored, twristiaeth a darparu llety cŵn a chathod. Bydd pob un o'r gweithgareddau newydd hyn yn cynhyrchu ei ffrydiau gwastraff ei hun y mae'n ddigon posibl y bydd yn gofyn am dechnegau trin gwahanol.  Er enghraifft, ni ddylid taenu gwastraff o gybiau cŵn ar dir oherwydd y risg y bydd yn lledaenu clefydau. Felly, rydym yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r cod yn cynnwys adran sy'n nodi'r effeithiau y gallai'r mathau eraill hyn o weithgareddau eu cael ar weithgarwch rheoli gwastraff amaethyddol yn gyffredinol.

Yn olaf, mae'r datganiad ond yn ystyried y system eithrio, er ei bod yn bosibl i ffermwyr eu hunain gael trwyddedau ar gyfer gweithgareddau ar y fferm (yn arbennig am y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau adfer gwastraff ac nid dim ond gwaredu gwastraff). Awgrymir y dylid cynnwys adran ychwanegol yn A4 i ymdrin â hyn. Dylid cyfeirio at y rhain fel Trwyddedau Amgylcheddol ac nid fel trwyddedau Rheoli Gwastraff fel y nodir yn a3.2. Yn y cyd-destun hwn efallai y byddwch am ychwanegu dolen i ganllawiau trwyddedu CNC yn A6.

### I gael rhagor o wybodaeth

Cysylltwch ag Isobel Moore, Pennaeth Rheoleiddio, Busnes ac Economeg
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP
02920 466118


www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Isobel.Moore@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk


www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk